menter iaith abertawe



# Adroddiad Blynyddol 2021-22

menterabertawe.org

## Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Abertawe 2021-22

### 1. Y Pwyllgor Rheoli

Mae aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn: Jaci Gruffudd (Cadeirydd), Saran Thomas (Is-Gadeirydd), Jane Altham Watkins (Trysorydd), Heini Gruffudd, Catrin Rowlands, Rhian Jones, Alun Chivers, Hannah Sams, Rhian Williams, Ann Williams, a Tomos Jones (ysgrifennydd). Roedd Alun Rennolf wedi ymuno fel aelod o'r pwyllgor sydd ddim yn gyfarwyddwr.

### 2. Staffio

Roedd 2021-22 yn flwyddyn sefydlog o ran staffio. Roedd Dafydd Mills wedi ymuno â ni fel swyddog datblygu yn ystod Mehefin 2021. Roedden ni hefyd wedi hysbysebu am staff achlysurol i helpu mas yn y siop a hefyd tu ôl y bar.

Mae rota o wirfoddolwyr yn helpu mas yn y siop ar fore Sadwrn.

### 3. Gwaith y Fenter

Eleni welwyd gweithgareddau'r Fenter nôl yn Nhŷ Tawe a mannau eraill.

Dangoswyd gemau'r Chwe Gwlad ac ambell i gêm pêl-droed yn y bar a daeth digon o bobl i fwynhau canu da.

Mae'r sesiwn werin nôl ar ail nos Wener y mis a hefyd Caffi Bore Sadwrn gyda'r dysgwyr. Mae gwirfoddolwyr yn wneud cyfraniad pwysig i'r ddau weithgaredd.

Roedd cyfres o "gigs" llwyddiannus gyda'r grwpiau canlynol:

- Noson lansio CD Huw Dylan
- Mei Gwynedd a Mabli
- Llwybr Llaethog a Pys Melyn
- Morgan Elwy a Dafydd Hedd
- Pwdin Reis
- Noson goffa i Gareth Rees gyda Lowri Evans a Lee Mason
- Georgia Ruth a Gareth Bonello

Roedd llwyfan fel rhan o'r "Fringe" yn cynnwys Y Dail, SYBS, Geraint Rhys, a Sian Richards. Roedd llwyfan fel o'r ŵyl Croeso yn cynnwys Huw Dylan, Derw, Cerys Hafana a Lowri Evans.

Roedd hefyd noson gomedi "*Glatsh!*", a pherfformiad o gynhyrchiad Theatr Arad Goch "*Tu Fewn Tu Fas*".

Roedd llu o weithgareddau Nadolig gan gynnwys cwis, digwyddiad PlanTawe, a sesiynau stori gyda Siôn Corn.

## 4. Gweithgareddau Eraill

Sefydlwyd cynllun "PL Kicks" – sesiynau pêl-droed iaith Gymraeg gyda'r Elyrch.

Roedd cyfres o weithgareddau ar y cyd gyda'r Urdd a Menter CNPT gan gynnwys y gweithgareddau "*Hwyl yr Haf*", a'r Clwb Cerddoriaeth. Cynhaliwyd clybiau CA3 wythnosol yn y ddwy ysgol uwchradd, ac roedd yn bosib ail-ddechrau ymweld ag ysgolion amrywiol eraill i gynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith a gemau buarth.

Nodwyd llwyddiant y digwyddiad "Gŵyl Tawe" tu allan i'r Railway Inn. Mae yna fwriad i gynnal eto yn ystod y flwyddyn 22-23.

## 5. Y Siop

Mae'r siop yn mynd o nerth i nerth. Gyda'r til newydd mae'n bosibl i ehangu'r ystod eang o nwyddau sydd ar werth ar-lein. Roedd y Fenter wedi cynhyrchu calendr Cymraeg a dosbarthu nhw trwy siopau Abertawe. Diolch i'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio dydd Sadwrn.

## 6. Cyllid

Mae adroddiad y trysorydd yn rhoi manylion llawn ar gyllid. Derbyniodd y Fenter grant oddi wrth LLC am y flwyddyn ariannol 2021-22. Mae pob darn o'r grant wedi ei wario a hawlio.

## 7. Wrth Edrych Ymlaen

Rydw i'n siŵr gallwn ni edrych ymlaen at 2022-23 fel blwyddyn o gynnydd yn weithgareddau'r Fenter.

Hoffwn i ddweud diolch yn fawr iawn i bob aelod o'r Pwyllgor am eu cefnogaeth i'r Fenter ac i fi fel Cadeirydd. Gyda'ch cefnogaeth ac ymrwymiad rydyn ni wedi llwyddo i ail gydio yn yr holl weithgareddau'r Fenter a hefyd wedi ymestyn i feysydd newydd. Wrth gwrs mae'r diolch enfawr i Tomos sy'n llywio popeth, Anys, Dafydd a Janet. Hebddyn nhw byddai'r Fenter ddim yn bodoli.

Ar ôl dwy flynedd anodd iawn mae'r haul yn dechrau tywynnu unwaith eto ar fywyd Cymraeg Abertawe.

*Jaci Gruffudd*

**Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli**

***Wedi ei gymeradwyo gan bwyllgor rheoli Menter Iaith Abertawe – 07.06.2022***